ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	26 Tachwedd 2026
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan'
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiadau.
AWDUR	Lora Williams , Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar 'Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**. Ceir dogfen ymateb sefydliadol yn **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion perthnasol o fewn yr adroddiad. Bydd **Gareth Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Amgylchedd** yn mynychu'r cyfarfod i ymateb i unrhyw gwestiynau ynghylch y cynllun peilot Arosfan tra bydd **Meinir Owen, Uwch Ymarferydd Prosiectau** yn mynychu i ymateb i unrhyw gwestiwn ar yr ymateb sefydliadol os oes angen**.**